Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

5 Hydref 2016

Annwyl Mark

**Y BIL TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU)**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi dechrau cymryd tystiolaeth gan randdeiliaid fel rhan o'i ystyriaeth o'r Bil hwn. Roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol rhoi gwybod ichi fod y tystion wedi pwysleisio inni, os daw'r darpariaethau yn y Bil yn gyfraith, y byddai'n hanfodol i Awdurdod Cyllid Cymru gyhoeddi canllawiau clir ar eu rhoi ar waith o'r cychwyn cyntaf.

Mae hwn yn fater y mae tystion o nifer o sefydliadau eisoes wedi'i godi gyda ni, ac felly mae'n bosibl y byddwn yn ein hadroddiad Cyfnod 1 ar y Bil, yn argymell ichi lunio canllawiau drafft sydd ar gael cyn trafodion Cyfnod 2 fel y gall yr Aelodau ystyried sut y byddai'r darpariaethau yn y Bil yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Yn benodol, byddem yn ddiolchgar am gael gweld yn gynnar y canllawiau drafft mewn perthynas ag adran 8 (trafodiadau cysylltiol), adran 31 (rhyddhad: gwrthweithio osgoi trethi) ac adrannau 71 a 72 (ystyr annedd/eiddo preswyl).

Byddwch yn gwerthfawrogi bod y Pwyllgor yn dal i fod yng nghamau cynnar y broses o gasglu tystiolaeth, ond roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'n fuddiol rhoi gwybod am y thema hon sy'n dod i'r amlwg yn y dystiolaeth o ystyried yr amserlen fer rhwng cyhoeddi ein hadroddiad a thrafodiadau Cyfnod 2. Credwn pe bai'r Llywodraeth yn ymateb yn gadarnhaol ac yn llunio canllawiau drafft, y byddai o gymorth mawr i'r Pwyllgor a'r rhanddeiliaid.

Yn gywir

Simon Thomas
**Cadeirydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565